Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# ADOLYGIAD O ANSAWDD Y GOFAL

# Templed hunanwerthuso ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal plant a chwarae

## Eich hunanwerthusiad

Mae hunanwerthuso'n bwysig er mwyn eich helpu i ystyried y ffordd orau o greu, cynnal a gwella eich gwasanaeth fel ei fod yn:

- Cyrraedd y safonau uchaf o ran diogelwch, gofal plant o safon a chwarae;
- Cynnig y profiad gorau i blant;
- Cyfrannu at ganlyniadau llesiant plant.

Mae Adolygiad o Ansawdd y Gofal eich gwasanaeth hefyd yn cyflawni eich dyletswydd gyfreithiol o dan reoliad 16 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

## Pryd i ddefnyddio'r templed hwn

Gallwch ddefnyddio'r templed hwn bob blwyddyn er mwyn cofnodi eich Adolygiad o Ansawdd y Gofal. Gellir lawrlwytho'r templed a'i arbed i'ch cyfrifiadur personol a/neu ddyfeisiau symudol eraill megis llechi.

Dylid sicrhau bod eich Adolygiad o Ansawdd y Gofal ar gael yn ystod arolygiad neu pan ofynnir amdano gan eich arolygydd.

Mae'r templed Adolygiad ar Ansawdd y Gofal hwn ar gael i'ch cynorthwyo wrth fformatio eich adroddiad Adolygiad ar Ansawdd. Os byddwch yn defnyddio fformat arall, mae'n rhaid iddo gydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

Nid oes angen i chi anfon copi o'ch arolygiad atom oni bai y gofynnwyd yn benodol i chi wneud hynny gan eich arolygydd. Ar gyfer y gwasanaethau hynny sydd i fod i gael arolwg ar y cyd gan CIW ac Estyn yn fuan, gallwch ddefnyddio'r templed a chwmpasu pob thema yn y fframwaith arolygu ar y cyd, neu ddefnyddio dull arall.

## Ynglŷn â'r templed hunanwerthuso

Mae dwy ran i'r templed:

Mae **rhan A** yn dweud wrthym beth yw barn y rhai hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth rydych yn ei chynnig.

Mae **rhan B** yn rhoi cyfle i chi werthuso eich darpariaeth a phennu pa mor dda mae eich gwasanaeth yn ei wneud yn eich barn chi.

Cwestiynau y byddwch am eu hystyried yn eich gwerthusiad:

- Beth rydych yn ei wneud yn dda?
- Sut ydych yn gwybod?
- Beth yw'r manteision i blant?
- Beth ydych chi am ei wella?
- Sut y byddwch yn mesur gwelliannau?

## Rhan A: Manylion y gwasanaeth a safbwyntiau'r rhai hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Mae'n rhaid i'r rhan hon o'ch hunanwerthusiad gofnodi'r canlynol:

- Safbwyntiau'r plant sy'n mynychu eich gwasanaeth a safbwyntiau eu rhieni neu ofalwyr;
- Safbwyntiau gweithwyr proffesiynol eraill sydd efallai'n gweithio gyda chi, megis cynghorwyr awdurdodau lleol / gweithwyr datblygu ar gyfer Dechrau'n Deg neu addysg y cyfnod Sylfaen, gweithwyr iechyd proffesiynol Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu; staff canolfan i blant ac unrhyw ddarpariaeth gofal plant arall;
- Manylion unrhyw gynllun sicrhau ansawdd rydych yn cymryd rhan ynddo.

Rhowch enghreifftiau o'r ffyrdd rydych yn ceisio safbwyntiau, y niferoedd sy'n cymryd rhan, crynodeb o'r ymatebion, ac unrhyw gamau gweithredu rydych wedi'u cymryd er mwyn gwella o ganlyniad i'r safbwyntiau hynny.

## Dulliau o gasglu safbwyntiau

(Dim mwy na 500 gair)

Casglwyd barnau oddi wrth defnyddwyr y gwasanaeth, megis rhieni/gwarcheidwad y Cylch a'r sesiynau Ti a Fi yn ogystal a'r plant sy'n mynychu'r Cylch.

Rhennir holiaduron ffurf electroneg 'Forms' gyda rhieni a gwarcheidwad wrth ddefnyddio linc cod QR drwy meddalwedd LinkTree ac arddangosfeydd/adnoddau marchnata'r Cylch.

Yn ogystal danfonwyd linc yn dorfol at y rieni/gwarcheidwad trwy ebost er mwyn ei hannog i rannu barn ar y Gwasanaeth. Cynlluniwyd gwneud hyn ddwywaith yn flynyddol - mis Ionawr a mis Mehefin er mwyn mesur a chymharu effaith unrhyw gwelliannau/datblygiadau yn dilyn yr holiaduron cychwynol.

Casglwyd barn y plant wrth ddefnyddio system goleadau traffig a wynebau er mwyn iddynt fynegi barn dros yr ardaloedd chwarae/darpariaeth barhaus sydd yn y Cylch.

## Nifer y plant, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n rhoi adborth

(Dim mwy na 500 gair)

Yn y gorffennol, buom yn siomedig gyda cyn lleied o ymatebion gan y rhieni i'r holiaduron papur a danfonwyd allan. Allan o 30 teulu dim ond 2 ymateb cawsom yn 2021-22.

Cynlluniwyd felly i greu holiadur electroneg arlein gan ddefnyddio 'Forms' er mwyn ceisio hwyluso'r broses, gwneud yn fwy hylaw ac annog mwy o ymatebion.

Cawsom 11 ymateb mis Ionawr wedi i ni ddanfon ebyst i holl ddefnyddwyr y gwasanaeth - sef 31% o'n teuluoedd presennol. Mae angen cynllunio ymhellach er mwyn gwella ar ganran yr ymatebion.

Cawsom 4 ymateb wedi sesiwn Cylch Ti a Fi lle mynychwyd 6 teulu ym mis Ionawr.

Gwahoddwyd holl blant y Cylch a oedd wedi mynychu sesiynau yn ystod wythnos y 9fed - 13eg o Ionawr i fynegi barn ar yr ardaloedd chwarae/darpariaeth barhaus gan ddefnyddio wynebau a chod lliw goleadau traffig.

## Crynodeb o'r ymatebion

(Dim mwy na 500 gair)

Plant:

Doedd dim un plentyn wedi mynegi barn negyddol (wyneb coch) ar gyfer yr ardaloedd chwarae/darpariaeth barhaus. Roedd pob plentyn wedi ymateb yn bositif (wyneb gwyrdd hapus) ar gyfer yr ardal allanol, a'r mwyafrif yn mynegi barn positif dros yr ardal chwarae rol, darllen a chreadigol. Roedd lleiafswm o blant wedi mynegi barn ansicr (wyneb oren) ar gyfer ardaloedd Rhifau, Adeiladu a Byd bach.

Rhieni/Gwarcheidwad Cylch:

Roedd 100% o rieni yn barnu'r Cylch yn rhagorol am y croeso maen't yn derbyn ar ddechrau bob sesiwn gyda 91% o rieni yn barnu'r croeso cyntaf i'r Cylch yn rhagorol. Barnwyd fod gofal rhagorol gan y Cylch dros y plant gan bob un rhiant hefyd. Roedd 100% o deuluoedd hefyd yn barnu fod y cylch yn rhagorol neu'n dda iawn am yr adnoddau a'r gweithgareddau sydd ar gynnig i'w plant yn y Cylch.

Roedd llai na hanner y teuluoedd wedi mynegi ei bod yn hapus/fodlon gyda trefniadau'r Cylch i drafod datblygiad ei plant ac roedd 27% o rieni wedi mynegi fod y Cylch yn dda neu'n foddhaol wrth rhannu/hysbysu pa weithgareddau mae'r plant yn gwneud tra yn y Cylch.

Nodir hefyd gan rhai rhieni nad oedden nhw wedi gweld yr ystafell Cylch/ adeilad, na chwaith cael cyfle i gwrdd a rhieni/cymysgu a chymdeithasu oherwydd cyfyngiadau Covid.

Cylch Ti a Fi:

Roedd 100% o ymatebion yn barnu'r sesiwn Ti a Fi yn 4 neu 5 seren allan o 5. Barnwyd y gweithgareddau roedd ar gynnig yn ystod y sesiwn yn rhagorol neu'n dda iawn gan 100% gyda dim un sylwad ar gyfer awrgrymiadau newid/gwella'r sesiynau.

## ‘Gwelliannau y byddwch yn eu gwneud, neu rydych wedi'u gwneud, o ganlyniad i adborth’

(Dim mwy na 500 gair)

Datblygwyd ddogfen rhannu gwybodaeth gyda rhieni yn ddyddiol sef ' Fy Niwrnod Heddiw'. Ffocws y ddogfen ydy rhannu gwybodaeth ac adborth perthnasol am y plentyn megis oriau cysgu, cofnodion ty bach, negeseuon (Cylch ac ysgol os yn defnyddio gofal cofleidiol), pa weithgareddau a gwnaid a pha snac/byrbryd cawson.

Trefnwyd cyfleoedd i bob rhiant newydd ymweld a'r Cylch cyn i'w plentyn ddechrau er mwyn gweld yr ystafell, cael ymdeimlad o'r naws, cwrdd a staff a gweld y plant yn hapus wrth ei gweithgareddau. Cynlluniwyd hefyd Picnic Haf mewn cysylltiad a'r ysgol er mwyn marchnata a chymysgu gyda'r teuluoedd yn y Gymuned er mwyn codi proffil y gwasanaeth.

Cynlluniwyd ar gyfer gwahodd rhieni i ddod i drafod datblygiad ei plentyn ar ddechrau Tymor yr Haf yn ogystal a derbyn crynodeb /adroddiad byr ar ddatblygiad ei plentyn ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Gwahoddwyd Cymraeg i Blant i ddod i arwain ar rhai sesiynu Ti a Fi - a'i chynnig am ddim.

Gofynnwyd i'r plant rhannu syniadau a chynnig beth byddant yn dymuno dodi yn yr ardaloedd lle roeddent yn ansicr (Rhif, Byd bach a c Adeiladu) er mwyn ei gwella.

## Rhan B: Ansawdd a safon y ddarpariaeth

Mae'r rhan hon o'r templed yn cwmpasu gwerthuso gwasanaeth a graddau hunanasesu.

**Gwerthuso gwasanaeth** – dyma ble rydych yn nodi:

- Eich cryfderau
- Unrhyw feysydd i'w gwella
- Y camau gweithredu a gynigir a sut y byddwch yn mynd i'r afael â nhw
- Sut y cânt eu monitro
- Sut y byddwch yn mesur llwyddiant.

**Graddau hunanasesu** – mae'n bwysig cynnwys eich dyfarniad eich hun er mwyn graddio pa mor dda rydych yn ei wneud yn y meysydd canlynol:

- Llesiant
- Gofal a datblygiad
- Yr amgylchedd
- Arwain a rheoli

Gweler y pedair gradd isod a ddefnyddir gennym er mwyn llywio eich asesiad o'ch ymarfer.

**Rhagorol**: Dyma wasanaethau sydd â llawer o gryfderau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.

**Da**: Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol.

**Digonol**: Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.

**Gwael**: Dyma wasanaethau lle mae mwy o ardaloedd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfiaeth sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant.

## 1. Llesiant

Mae hyn yn canolbwyntio ar y cynnydd y mae gwahanol grwpiau o blant yn ei wneud, gan ystyried eu hoedran, datblygiad ac anghenion. Mae'n ymwneud â'r ffordd y mae eich gwasanaeth yn cyfrannu at lesiant plant, gan eu helpu i gael llais, datblygu eu sgiliau a dod yn annibynnol a hyderus.

### Gwerthuso gwasanaeth

Cwestiynau y byddwch am eu hystyried:

- Beth rydych yn ei wneud yn dda?
- Sut ydych yn gwybod?
- Beth yw'r manteision i blant?

(Dim mwy na 500 gair)

Mae'r plant yn hapus pan maen't yn mynychu'r Cylch ac mae arsylwadau'r staff yn dangos fod y plant yn hyderus yn y dosbarth, yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol ac yn datblygu ystod o sgiliau allweddol yn ei gweithgareddau dydd i ddydd. Dengys system goleadau traffig a wynebau fod y plant yn hoff iawn o'r ystafell ddosbarth ac mae nhw'n cymryd balchder yn ei gwaith ac wrth eu harddangos ofewn y dosbarth. Mae arsylwadau'r staff yn dangos fod y plant yn gwneud cynnydd da gydag agweddau megis iaith Gymraeg, bwyta yn annibynnol, sgiliau toiled a glendid personol, gwisgo cot a rheolaeth emosiynol sy'n addas i oedran.

Derbyniwyd nifer o negeseuon gan y rieni yn canmol y wasanaeth ac yn nodi yn benodol pa mor hapus mae ei plant. Dengys hefyd data'r holiaduron fod 100% o rieni yn hapus gyda'r gofal mae ei plant yn derbyn yng Nghylch Meini Bach.

Mae'r plant felly yn datblygu i fod yn hyderus, yn magu perthnasau positif gyda oedolion cyfarwydd a ffrindiau ac maen't yn paratoi yn dda i fynychu ysgol. Mae ymddygiad y plant yn dda iawn ac maen't yn ymateb yn briodol ac yn ymgysylltu a phob agwedd o'r sesiynau Cylch.

Mae gan y Cylch gweithdrefnau monitro sy'n craffu ar sesiynau yn Dymhorol ac mae'r monitro yn cyfrannu at gyfarfodydd arfarnu staff yn ogystall a chraffu ar weithgareddau a safonau/gallu'r plant yn y sesiwn. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd i'r plant cael gwneud dewisiadau yn rhan anatod o'r sesiynau megis dewis snac, dewis gweithgredd/stori/caneuon sy'n golygu fod y plant yn teimlo'n bwysig, yn cael eu parchu ac yn cymryd rhan gweithredol ym mywyd Cylch dyddiol.

## Eich blaenoriaethau ar gyfer gwella

Cwestiynau y byddwch am eu hystyried:

- Beth ydych chi am ei wella?
- Sut y byddwch yn mesur gwelliannau?

(Dim mwy na 500 gair)

Hoffwn ail ymgeisio am grant er mwyn datblygu'r ardal gegin i gynnwys ardal bwyta pwrpasol, ardal paratoi ciniawau ffres yn ddyddiol a thy bach i blant ac ardal newydd newid cewynnau sy'n hygyrch i bawb. BYddai hyn yn galluogi'r plant i fod yn fwy annibynnol gyda defnyddio ty bach a chadw glendid personol.

Rydym yn dymuno hefyd datblygu ym mhellach yr ardal allanol gan fuddsoddi mewn adnoddau newydd ar gyfer datblygiad corfforol ac aml-synhwyraidd. Er mwyn hwyluso gweithgareddau allanol a'i galluogi i fod yn hygyrch ac yn ddefnyddiol ym mhob tywydd mae angen buddsoddi mewn canopi sy'n cwrdd a gofynion statudol Iechyd a Diogelwch AGC a'r Sir (ysgol).

Cynlluniwyd cyfleoedd i rannu gwybodaeth am ddatblygiad y plant gyda rhieni/gwarcheidwad ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hefyd wrth ymateb i'r holiaduron.

Cofnodwyd y camau gwella yma mewn dogfen Cynllun Gweithredu Gwella sy'n nodi pwy yw'r pobl cyfrifol/atebol am y gwelliannau, dyddiad cwblhau, meini prawf llwyddiant/deilliannau'r gwelliannu a chyfle i werthuso'r effaith gyda dyddiadau gwirio 'cerrig milltir' yn ystod y broses i wirio cynnydd.

## Eich asesiad o lesiant

Mae fy ymarfer yn (dewiswch un blwch yn unig):

| | |
|---|---|
| Rhagorol: mae fy ymarfer yn rhagorol | ☐ |
| Da:  mae fy ymarfer yn gryf | ☒ |
| Digonol: mae angen gwella fy ymarfer | ☐ |
| Gwael: mae angen gwella fy ymarfer yn sylweddol | ☐ |

## 2. Gofal a datblygiad

Mae hyn yn canolbwyntio ar sut mae ymarferwyr ymatebol yn diwallu anghenion y plant – sut maent yn helpu plant i deimlo'n ddiogel yn emosiynol a sicrhau bod plant yn iach yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod plant yn cael eu datblygu ac yn meithrin cydberthnasau â phlant eraill, yn dod yn hunanymwybodol, hyderus ac yn cyflawni llesiant.

### Gwerthuso gwasanaeth

Cwestiynau y byddwch am eu hystyried:

- Beth rydych yn ei wneud yn dda?
- Sut ydych yn gwybod?
- Beth yw'r manteision i blant?

(Dim mwy na 500 gair)

Dengys arsylwadau'r pwyllgor wedi ymweliadau a theithau dysgu fod y staff yn defnyddio dulliau cadarnhaol i reoli ymddygiad ac annog y plant wrth ei gweithgareddau. Datblygwyd perthnasau adeiladol, positif a dylanwadol gyda'r holl plant dan gofal ac mae parch tuag at y plant a staff yn amlwg.

Mae'r staff yn modeli ac yn cyd-chwarae er mwyn engreifftio / ymuno yn y chwarae ac maen't yn meithrin naws Cymreig hapus a gwresog wrth ganu, llunio cwricwlwm Cymreig a throchi plant yn yr iaith yn ol dulliau a pholisiau Mudiad Meithrin.

O ganlyniad, mae'r plant yn ymderchu i gyfathrebu trwy'r Gymraeg ac yn ymateb yn bositif pan yn sgwrsio neu'n derbyn cyfarwyddiadau /arweiniad yn y Gymraeg.

Mae'r plant yn gwybod ac yn canu'n hyderus nifer o rigymau Cymreig gyda boddhad amlwg yn ystod y Cylch ac mae'r sgiliau yma'n fanteisiol wrth iddynt ddechrau Ysgol.

Mae'r plant yn creu ac yn magu perthnasau pwysig gyda phlant eraill yn y Cylch ac mae nhw'n parchu ei gilydd, rhannu teganau ac yn dangos gofal am ei gilydd.

## Eich blaenoriaethau ar gyfer gwella

Cwestiynau y byddwch am eu hystyried:

- Beth ydych chi am ei wella?
- Sut y byddwch yn mesur gwelliannau?

(Dim mwy na 500 gair)

Mae angen penodi person dynodedig ADY ofewn y Cylch er mwyn cefnogi teuluoedd a phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd yr unigolyn yma'n medru adnabod nodweddion ADY amrywiol, cyfeirio ar gyfer help / cefnogaeth cynnar a chydweithio gyda theuluoedd i sicrhau fod pob agwedd o fywyd Cylch Meini Bach yn hygyrch i bawb a chynnig ymyrraeth cynnar er mwyn gwella deilliannau i unigolion ADY.

Bydd angen trefnu hyfforddiant penodol a chreu cysylltiadau gyda aml-asiantaethau cefnogi ADY. Erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf bydd person dynodedig ar gyfer ADY yn y Cylch. Byddwn yn diweddaru'r wefan i gynnwys y wybodaeth/help a gynnigwyd o ganlyniad a bydd rhieni yn medru cysylltu i drafod unrhyw gofidiau/anghenion ychwanegol er mwyn gwella deilliannau i blant sy'n ymddangos a neu wedi'i derbyn deiagnosis ADY.

Cofnodwyd y camau gwella yma mewn dogfen Cynllun Gweithredu Gwella sy'n nodi pwy yw'r pobl cyfrifol/atebol am y gwelliannau, dyddiad cwblhau, meini prawf llwyddiant/deilliannau'r gwelliannu a chyfle i werthuso'r effaith gyda dyddiadau gwirio 'cerrig milltir' yn ystod y broses i wirio cynnydd.

| |
|---|
| |

## Eich asesiad o ofal a datblygiad

Mae fy ymarfer yn (dewiswch un blwch yn unig):

| | |
|---|---|
| **Rhagorol:** mae fy ymarfer yn rhagorol | ☐ |
| **Da:** mae fy ymarfer yn gryf | ☒ |
| **Digonol**: mae angen gwella fy ymarfer | ☐ |
| **Gwael:** mae angen gwella fy ymarfer yn sylweddol | ☐ |

## 3. Yr amgylchedd

Mae'r adran hon yn ystyried sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol a ddarperir gennych o ansawdd da ac yn diwallu anghenion y plant sy'n defnyddio'ch gwasanaeth.

### Gwerthuso gwasanaeth

Cwestiynau y byddwch am eu hystyried:

- Beth rydych yn ei wneud yn dda?
- Sut ydych yn gwybod?
- Beth yw'r manteision i blant?

(Dim mwy na 500 gair)

Mae'r ystafell ddosbarth yn lliwgar, deniadol ac yn greadigol ac fe welwyd gwaith y plant ym mhob ardal. Mae ymateb y plant gan ddefnyddio system goleadau traffig a wynebau yn profi eu bod yn hapus ac fodlon gyda'r ddarpariaeth sydd yna ar ei cyfer.

Mae monitro a gwiriadau Iechyd a Diogelwch ac Asesiadau Risg y Cylch yn gyson yn dangos fod yr ystafell a'r ardaloedd a defnyddir yn ddiogel ac yn addas i bwrpas.

Mae'r ystafell ddosbarth yn drefnus ac yn hygyrch i bawb. Mae gweithgareddau wedi'i osod ar amrywiaeth o lefelau ac yn cynnig her diddorol addas i bob plentyn gyda cynnigion sy'n apelio at amryw ddiddordeb. Mae'r plant yn annibynnol wrth gael mynediad i dasgau cyffrous a diddorol ac mae'r plant yn dangos gofal dros yr adnoddau a'r safle.

## Eich blaenoriaethau ar gyfer gwella

Cwestiynau y byddwch am eu hystyried:

- Beth ydych chi am ei wella?
- Sut y byddwch yn mesur gwelliannau?

(Dim mwy na 500 gair)

Chwarae Rol - ail gyflwyno ardal chwarae rol o ansawdd uchel ar ol ymlacio cyfyngiadau covid-19. Bydd angen buddsoddi mewn celfi aml-ddefnydd er mwyn dilyn diddordebau'r plant a themau i greu ardaloedd newydd bob hanner tymor megis siop, milfeddygfa, ty bach twt ayyb

Hoffwn greu gardd aml-synhwyraidd tu allan er mwyn datblygu ardal wrth ochr yr adeilad a'i ddefnyddio unwiath yn rahgor,  fel mynediad ac allanfa ar gyfer defnydd Cylch. Bydd angen buddsoddi mewn planhigion/blodau ac adnoddau naturiol i greu ardal tawel, ymlaciedig sy'n hygyrch ac yn ymarferol er mwyn gadael a hebrwng y plant wrth ddrws cefn yr ystafell wedi ymlacio cyfyngiadau covid-19.

Cofnodwyd y camau gwella yma mewn dogfen Cynllun Gweithredu Gwella sy'n nodi pwy yw'r pobl cyfrifol/atebol am y gwelliannau, dyddiad cwblhau, meini prawf llwyddiant/deilliannau'r gwelliannu a chyfle i werthuso'r effaith gyda dyddiadau gwirio 'cerrig milltir' yn ystod y broses i wirio cynnydd.

## Eich asesiad o'r amgylchedd

Mae fy ymarfer yn (dewiswch un blwch yn unig):

| | |
|---|---|
| **Rhagorol:** mae fy ymarfer yn rhagorol | ☐ |
| **Da:** mae fy ymarfer yn gryf | ☒ |
| **Digonol**: mae angen gwella fy ymarfer | ☐ |
| **Gwael:** mae angen gwella fy ymarfer yn sylweddol | ☐ |

## 4. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r adran hon yn ystyried effeithiolrwydd eich arweinyddiaeth a'ch rheolaeth; neu os ydych yn warchodwr plant, pa mor dda rydych yn trefnu eich gwasanaeth. Mae'n cwmpasu'r canlynol:

- Bodloni gofynion Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru[1] a gofynion eraill y llywodraeth e.e. 'Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair'[2]
- Hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau
- Rheoli perfformiad a datblygu proffesiynol
- Diogelu
- Datblygu plant a chyfrannu at eu llesiant
- Eich gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth
- Rheoli a datblygu ymarferwyr
- Gweithio mewn partneriaeth.

### Gwerthuso gwasanaeth

Cwestiynau y byddwch am eu hystyried:

- Beth rydych yn ei wneud yn dda?
- Sut ydych yn gwybod?
- Beth yw'r manteision i blant?

(Dim mwy na 500 gair)

Mae gan y Cylch tim profiadol a brwdfrydig yn ei harwain gydag Arweinydd a Dirprwy sy'n rheoli a gweithio'n ardderchog gyda'r plant/staff/ysgol a chymdeithas rhieni. Ennillwyd gwobr yn ystod Dathliad Blynyddoedd Cynnar a Chwarae Abertawe am gydweithio gyda rhieni wedi enwebiad di-enw. Mae'r staff yn cymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth llawn dros manteisio ar gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac maen't wedi datblygu perthnasau adeiladol a phroffesiynol gydag asiantaethau sy'n cefnogi Diogelu a chefnogi gofal ac addysg gan gynnwys Blynyddoedd Cynnar megis, Mudiad Meithrin, Early Years Wales, Dewis Cymru ac Academi Cymru.

Mae gan y Cylch Pwyllgor profiadol a chefnogol gyda hanner yr aelodau yn gweithio ar yr un safle a'r Cylch. Mae'r Pwyllgor a'r tim rheoli yn cwrdd yn gyson er mwyn trafod datblygiadau, cynnydd yn erbyn targedau cynlluniau gwella ac i herio fel ffrind beirniadol. Mae'r gweledigaeth a chynlluniau gwella yn cael ei rannu a thrafod yn gyson ac mae pawb yn ymwybodol o'r hyn sydd angen gwneud er mwyn datblygu a

[1] I gael y Safonau Gofynnol Cenedlaethol gweler: https://arolygiaethgofal.cymru/rheoliadau-safonau-gofynnol-cenedlaethol-gofal-dydd-chwarae
[2] Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: https://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf

gwella'r gwasanaeth.

## Eich blaenoriaethau ar gyfer gwella

Cwestiynau y byddwch am eu hystyried:

- Beth ydych chi am ei wella?
- Sut y byddwch yn mesur gwelliannau?

(Dim mwy na 500 gair)

Hoffwn groesawu mwy o aelodau pwyllgor sydd hefyd yn ddefnyddwyr y gwasanaeth/rhieni. Mae'r ymgyrch yma wedi'i nodi ar bob cylchlythyr a gohebiaeth at y rhieni.

Hoffwn hefyd parhau i gryfhau perthnasau gweithio agos gyda 'Blynyddoedd Cynnar Cymru' a 'Family Information Service-Sir Abertawe' er mwyn ein cefnogi gyda'n gwaith ADY a'n targed o benodi swyddog ADY er mwyn cefnogi plant a teuluoedd.

Cofnodwyd y camau gwella yma mewn dogfen Cynllun Gweithredu Gwella sy'n nodi pwy yw'r pobl cyfrifol/atebol am y gwelliannau, dyddiad cwblhau, meini prawf llwyddiant/deilliannau'r gwelliannu a chyfle i werthuso'r effaith gyda dyddiadau gwirio 'cerrig milltir' yn ystod y broses i wirio cynnydd.

Byddwn yn gwirio cynnydd tuag at phob targed yn ystod ein cyfarfodydd arfarnu staff a chyfarfodydd Pwyllgor Tymhorol.

## Eich asesiad o arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae fy ymarfer yn (dewiswch un blwch yn unig):

| | |
|---|---|
| **Rhagorol:** mae fy ymarfer yn rhagorol | ☐ |
| **Da:** mae fy ymarfer yn gryf | ☒ |
| **Digonol**: mae angen gwella fy ymarfer | ☐ |
| **Gwael:** mae angen gwella fy ymarfer yn sylweddol | ☐ |

Defnyddiwch y blwch isod os oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu cynnwys

| |
|---|
| (Dim mwy na 500 gair) |

Enw'r Unigolyn Cyfrifol/Person Cofrestredig:

**Mrs Sarah Olwen Bowkett**

Llofnodwyd:

**S.O.Bowkett**

Dyddiad:

**26.1.2023**